

I osod hysbyseb yng Nghylchlythyr Cymunedol nesaf Dolwyddelan, neu i gael sylw fel Busnes Lleol y Chwarter, cysylltwch â **Shaun Hewitt**

e-bost: shaunhewitt@me.co.uk

Ffon: 01690 750 519

Eurwyn Roberts a Meithrinfa'r Felin

Dechreuais gymryd diddordeb mewn garddio drwy dyfu llysiau gyda fy nhad. Yr adeg honno roeddwn yn cael garddio yn yr ysgol hefyd. Yna dechreuais gystadlu yn y Sioe Flodau leol ac wedyn mentro i gystadlu mewn aml i sioeau eraill.

Bum yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd am 22 mlynedd, yn bennaf yn codi waliau cerrig, gwaith yr wyf yn dal i'w wneud a'i fwynhau pan fo'r gofyn. Yn 1994 roedd mwy a mwy o ofyn am y cynnyrch roeddwn yn ei dyfu felly penderfynais agor Meithrinfa'r Felin i gael rhagor o le ar gyfer tyfu amrywiaeth eang o blanhigion.



'Rwyf wedi arbenigo mewn tyfu delias ers rhai blynyddoedd ac yn cael llawer o lwyddiant wrth eu harddangos mewn sioeau. Mae gofyn mawr arnaf yn y Feithrinfa i greu basgedi crog, gyda planhigion tymhorol a begonias hefyd yn boblogaidd iawn. 'Rwyf hefyd yn cyflenwi llawer o siopau yn yr ardal gyda planhigion gan gynnwys planhigion llysiau.

Yn ogystal â chystadlu yn y Sioe Flodau leol, Sioe dwi wedi bod yn gysylltiedig â hi ers rhyw hanner can mlynedd, ac ar hyn o bryd yn ysgrifennydd arni; byddaf hefyd yn cystadlu mewn sioeau eraill fel Sioe Fawr Sir Fôn, Sioe Sir Feirionnydd a sawl sioe arall yn yr ardal ac wedi bod yn llwyddiannus ynddynt ar hyd y blynyddoedd. Mae'n rhoi pleser mawr i mi gael llwyddo gyda cynnyrch dwi wedi ei feithrin o hedyn bychan yn y Feithrinfa. Dwi hefyd yn cael y fraint o feirniadu mewn sawl Sioe, gwaith sydd yn rhoi boddhad i mi. Ers ugain mlynedd dwi wedi bod yn mynd o amgylch Clybiau Garddio a gwahanol fudiadau yng Ngogledd Cymru i roi sgwrs a chynghor ar arddio.

Diddordeb mawr arall sydd gennyf yw pysgota a cawio plu pysgota, byddaf wrth fy modd yn cael hyfforddi grwpiau yn y grefft o gawio plu. 'Rwyf yn Gadeirydd ar Gymdeithas Bysgota Dolwyddelan.



Am ragor o wybodaeth croeso i chi gysylltu â mi ar **01690750319**